**Rhestr Wirio Safonau'r Iaith Gymraeg ar gyfer Darparwyr Trydydd Parti sydd â Chontract gyda Phrifysgol Aberystwyth.**

Ar 1 Ebrill 2018 derbyniodd Prifysgol Aberystwyth Hysbysiad Cydymffurfio o dan amodau Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'n rhaid i'r Brifysgol gydymffurfio â chyfres o Safonau'r Iaith Gymraeg a disgwylir y bydd trydydd partïon sy'n darparu gwasanaethau i neu ar ran y Brifysgol hefyd yn cydymffurfio.

Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi paratoi canllaw *Gwneud Cais am Gontractau a Grantiau: Ystyried y Gymraeg.* https://www.aber.ac.uk/en/media/departmental/cwls/canllawiausafonauiaithhefyd/Gwneud-cais-am-Gontractiau-a-Grantiau.pdf

Gellir canfod yr holl Safonau Iaith a sut bydd y Brifysgol yn cydymffurfio yma http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/safonau/ ond isod ceir rhestr wirio o'r ystyriaethau a all fod yn berthnasol i chi.

***A fyddwch chi yn gosod arwyddion ar dir y Brifysgol?***

Dylai'r holl arwyddion a hysbysiadau, parhaol neu dros dro, fod yn ddwyieithog os ydynt yn cael eu gosod ar dir y Brifysgol. Dylai'r arwyddion fod o'r un maint ac amlygrwydd.

***A fyddwch chi yn gohebu yn uniongyrchol gyda myfyrwyr neu aelodau o'r cyhoedd?***

Rhaid i ohebiaeth gyda myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth a gohebiaeth gyda'r cyhoedd yn enw'r Brifysgol, fod yn ddwyieithog neu yn newis iaith y myfyriwr.

***A fyddwch chi yn cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb i fyfyrwyr neu aelodau'r cyhoedd?***

Dylai unrhyw wasanaeth wyneb yn wyneb i fyfyrwyr a'r cyhoedd fod ar gael yn y ddwy iaith. Mae hyn yn berthnasol os yw'r gwasanaeth yn ymwneud â

- derbyn a dethol myfyrwyr
- lles myfyrwyr
- gwasanaeth gyrfaoedd
- darlithoedd cyhoeddus

***A fyddwch chi yn cynnig gwasanaeth wyneb yn wyneb (e.e. cyfarfodydd) neu yn gohebu gyda staff y Brifysgol?***

Bydd angen i hyn fod yn ddwyieithog os yw'r gwasanaeth yn ymwneud â

- datblygu gyrfa
- lles myfyrwyr
- recriwtio

- cyfweliadau swydd

***A fyddwch chi yn cynnig hyfforddiant i staff?***

Bydd angen i hyn fod ar gael yn y ddwy iaith os yw'r hyfforddiant yn ymwneud â

- recriwtio a chyfweld
- rheoli perfformiad
- cwynion a gweithdrefnau disgyblu
- cynefino
- delio â'r cyhoedd
- iechyd a diogelwch

***A fyddwch chi yn darparu meddalwedd ar gyfer myfyrwyr ac/neu'r cyhoedd?***

Rhaid i bob rhaglen a gwefan a ddefnyddir gan fyfyrwyr ac / neu aelodau'r cyhoedd fod yn ddwyieithog os ydynt yn ymwneud â'r canlynol

- derbyn a dethol myfyrwyr
- gwybodaeth a ddarperir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y corff
- lles myfyrwyr
- cwynion
- achosion disgyblu mewn cysylltiad â myfyriwr
- gwasanaeth gyrfaoedd
- gwefannau rhith-ddysgu a gwefannau porth dysgu
- seremonïau graddio a gwobrwyo
- asesu neu arholi myfyriwr
- llety myfyrwyr
- llyfrgelloedd
- canolfan y celfyddydau

Dylai'r rhaglen fedru gweithredu'n llwyr yn y ddwy iaith ac yn ddelfrydol dylai fod â'r gallu i newid o un iaith i'r llall yn hawdd. Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

***A fyddwch yn ymgymryd ag ymchwil er mwyn cynorthwyo'r Brifysgol i wneud neu adolygu penderfyniadau polisi?***

Bydd rhaid i'ch ymchwil ystyried yr effaith y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r iaith Saesneg. Bydd angen i chi lenwi'r **Offeryn Asesiad Ardrawiad Iaith Gymraeg.** Mae'r ffurflen a chanllaw ar gyfer asesu ystyriaethau iaith Gymraeg wrth wneud neu addasu polisi yma http://www.aber.ac.uk/cy/cgg/bilingual-policy/safonau/canllawiau/

Os hoffech arweiniad pellach neu sgwrs am sut y gellir darparu gwasanaeth yn ddwyieithog, cysylltwch â ni os gwelwch yn dda.